



DYSGU DRWY CHWARAE

Ffonau hen ffasiwn

Gwnewch ffôn hen ffasiwn a'i ddefnyddio i sgwrsio â'ch gilydd.

Byddwch angen:

- Dwy gwpan blastig neu duniau
- Rhywbeth miniog i wneud twll yn y cwpan/tun
- Darn hir o llyn

Dull:

- Gan ddefnyddio rhywbeth miniog, gwnewch dwll trwy waelod pob cwpan/tun
- Torrwch y llynyn i'r hyd rydych chi ei eisïau

DYSGU DRWY CHWARAE - Ffonau hen ffasiwn

- Gwthiwch un pen o'r llinyn trwy'r twll yng ngwaelod y cwpan/tun fel bod pen y llinyn y tu mewn i'r cwpan/tun
- Clymwch gwllwm ar ben y llinyn fel nad yw'n dod allan o'r cwpan/tun
- Gwnewch hyn eto gyda'r cwpan/tun arall
- Mae eich ffôn hen ffasiwn yn barod
- Mae pob person yn gafael mewn cwpan/tun
- Cerddwch oddi wrth eich gilydd tan y bydd y llinyn yn dynn, ond gofalgwch beidio rhwygo'r llinyn o'r cwpan/tun
- Mae un person yn siarad i mewn i'w ffôn tra mae'r llall yn dal eu cwpan at eu clust
- Bydd y tonnau sain yn teithio ar hyd y llinyn tynn

Pam ddim?

- Amrywiwch hyd y llinyn er mwyn gweld sut mae hyn yn newid y canlyniadau?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Mae chwarae gyda'ch plentyn yn gwella'r bond rhyngddoch chi
- Bydd yn annog eich plentyn i gymryd rhan mewn sgwrs ac i wrando'n ofalus
- Bydd hefyd yn addysgu eich plentyn am bwysigrwydd cymryd tro



RHYBUDD:

Gofalgwch fod y tuniau'n lân heb unrhyw ymylon miniog! Mae'n rhaid goruchwylio plant wrth ddefnyddio llinyn!